# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## DYDD IAU, 21 MEDI 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
L.R. Bowen, J.M. Charles, I.W. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.D. James, C. Jones, D. Jones, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge and G.B. Thomas

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd P.M. Hughes, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch Cais Cynllunio W/35461.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
L. Quelch, Pennaeth Cynllunio
G. Noakes, Senior Swyddog Rheoli Datblygu [y Dwyrain]
J. Thomas, Senior Swyddog Rheoli Datblygu [y De]
S.W. Thomas – Uwch-swyddog Monitro a Gorfodi
K. James, Peiriannydd Cynorthwyol - Cydgysylltu Cynllunio
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
J Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00am - 11.40am**

[Sylwer: Er mwyn datrys anawsterau technegol, cafodd y Pwyllgor ei ohirio am 10:45am a'i ailymgynnull am 11:05am]

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S. Allen, J.A. Davies, H.I. Jones, J.K. Howell, B.A.L. Roberts a J.E Williams.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| G. B. Thomas | 4.2 – Cais Cynllunio S/35823 Dymchwel y breswylfa bresennol (Hen Goitre) ac adeiladu preswylfa ddeulawr ar wahân â 4 ystafell wely yn Hen Goitre, Yr Hendy, Llanelli, SA4 0YQ. | Ei fab yw'r ymgeisydd. |

## 3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

3.1 **PENDERFYNWYD** yn unol ag Atodiad y Pennaeth Cynllunio ac ar gais asiant yr ymgeisydd, bod y cais cynllunio canlynol yn cael ei ohirio tan gyfarfod yn y dyfodol.

| | |
|---|---|
| **E/35478** | **Atgyweirio ac addasu Capel Salem yn un breswylfa, Capel Salem, Heol Campbell, Llandybïe, Rhydaman, SA18 3UP.** |

## 4. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

4.1 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

| | |
|---|---|
| **S/33277** | **Datblygiad preswyl ar dir ger Maretta, Pump-hewl, Llanelli, SA15 5YT** |

4.2 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

| | |
|---|---|
| **S/35823** | **Dymchwel y breswylfa bresennol (Hen Goitre) ac adeiladu preswylfa ddeulawr ar wahân â 4 ystafell wely yn Hen Goitre, Yr Hendy, Llanelli, SA4 0YQ.**<br><br>SYLWER: Gan i'r Cynghorydd G.B. Thomas ddatgan buddiant yn y cais hwn yn gynharach, gadawodd y cyfarfod cyn i'r cais gael ei ystyried a chyn y gwnaed penderfyniad yn ei gylch. |

4.3 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ohirio ystyried y ceisiadau cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safleoedd:-

| | |
|---|---|
| **S/35875** | **Datblygiad preswyl - cais cynllunio amlinell ar gyfer 3 o breswylfeydd ar wahân (ailgyflwyno cais S/33484 - gwrthodwyd yr apêl ar 25/11/16) ar dir ger Hen Soar Fach, Heol Mynachlog, Pontyberem, Llanelli, SA15 5EY**<br><br>**Y RHESWM:** er mwyn galluogi'r Pwyllgor i asesu'r effaith bosibl y gallai'r datblygiad ei chael ar barcio a llif traffig. |
| **S/35189** | **Lleoli dau dŷ ar wahân ar dir ar safle hen felin goed Cwmblawd, Heol Llannon, Pontyberem, Llanelli, SA15 5NB**<br><br>**Y RHESWM:** rhoi cyfle i garfan newydd o aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ymweld â'r safle o ystyried mai dim ond 6 o'i aelodau presennol oedd yn aelodau'r Pwyllgor Cynllunio cyn Etholiadau 2017 ym mis Mai. Cynhaliwyd ymweliad safle eisoes ar 19 Ebrill 2017. |

## 5. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**5.1** Rhoddodd yr Uwch-swyddog Monitro a Gorfodi wybod i'r Pwyllgor bod y cais canlynol wedi cael ei dynnu'n ôl i'w ystyried yn y cyfarfod er mwyn datrys materion a phryderon ychwanegol sydd wedi cael eu codi.

| | |
|---|---|
| **W/35336** | **Adeiladu preswylfa ar dir yn Frondeg, 2 Bro Rhydybont, Llanybydder, SA40 9QX** |

**5.2** **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle:-

| | |
|---|---|
| **W/35461** | **Adeiladu 30 preswylfa a gwaith seilwaith cysylltiedig ar y safle (safle diwygiedig) ar dir y tu cefn i Gae Ffynnon, Bancyfelin, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA33 5DQ**<br><br>Roedd sylw wedi dod i law gan yr aelod lleol yn gofyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle.<br><br>**Y RHESWM: Galluogi'r Pwyllgor i weld lleoliad arfaethedig y datblygiad ac i ystyried y pryderon mewn perthynas â:-**<br>• **dŵr wyneb a llifogydd yn yr ardal;**<br>• **effaith bosibl y datblygiad ar bentref Bancyfelin;**<br>• **problemau parcio presennol ger ysgol y pentref a phryderon o ran diogelwch priffyrdd.**<br><br>Nodwyd bod y Cynghorydd P. Hughes yn Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ac nid yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio fel y nodwyd yn yr adroddiad.<br><br>Yn unol â phrotocol y Pwyllgor Cynllunio, roedd un o'r gwrthwynebwyr a oedd wedi gofyn am gael siarad ynghylch y cais hwn wedi dewis rhoi ei sylwadau yn ystod cyfarfod heddiw yn hytrach na'r cyfarfod ar ôl yr ymweliad â'r safle. Aeth y Pwyllgor felly ymlaen i gael y sylwadau yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig, a oedd yn ail-bwysleisio rhai o'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, gan gynnwys y pwyntiau canlynol:-<br><br>• Pryderon ynghylch dŵr wyneb a llifogydd yn yr ardal.<br>• Mae'r problemau presennol a gwaredu'r draeniad naturiol yn debygol o ychwanegu at y problemau presennol ar hyd Stryd Fawr ac achosi problem llifogydd i breswylwyr y stryd.<br>• Nid yw'r cais yn cyfeirio o gwbl at y ffaith fod rhan o'r datblygiad yn cael ei hadeiladu ar orlifdir.<br><br>[Sylwer: darparodd y gwrthwynebydd dystiolaeth fideo i'r Swyddogion Cynllunio o lif dŵr wyneb yn yr ardal yn ystod glaw trwm.]<br>Dewisodd asiant yr ymgeisydd gyflwyno ei sylwadau yng nghyfarfod yr ymweliad safle. |

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

5.3 **PENDERFYNWYD** caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

| | |
|---|---|
| **W/35973** | **SGWÂR CYHOEDDUS NEWYDD, CAFFI AC UNEDAU BUSNES BACH YN YR ARDAL GYHOEDDUS BRESENNOL SY'N GOFYN AM WAREDU'R RHEILIAU/WALIAU PRESENNOL, SGWÂR JACKSONS LANE, CAERFYRDDIN, SA31 1QD**<br><br>Cafwyd sylwadau oedd yn gwrthwynebu'r cais ac yn ail-bwysleisio'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio lle mai'r prif bwyslais oedd yr effaith ar yr ardal gadwraeth drwy newid dros 50% o'r gwyrddni am lecyn wedi'i balmantu, darparu sgrin deledu fawr a'r farn bod y cais yn groes i bolisïau cynllunio cenedlaethol a lleol SP1 a GP1.<br><br>Atgoffodd y Cadeirydd y ddau wrthwynebydd ac aelodau'r Pwyllgor Cynllunio o natur y cais cynllunio a oedd yn gofyn am waredu'r rheiliau a'r waliau presennol yn unig.<br><br>Daeth sylw o blaid y datblygiad arfaethedig a mynegwyd barn petai'r cais yn cael ei ganiatáu y byddai'r cynlluniau yn atgyfnerthu cymeriad lleol a fyddai'n parchu ac yn gwella'r lleoliad a nodweddion diwylliannol a hanesyddol ardal y cynllun. |

## 6. COFNODION

### 6.1. 27AIN GORFFENNAF 2017

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 27 Gorffennaf, 2017 gan eu bod yn gywir.**

### 6.2. 8FED AWST 2017

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 8 Awst, 2017 gan eu bod yn gywir.**

### 6.3. 24AIN AWST 2017

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 24 Awst, 2017 gan eu bod yn gywir.**

________________________ __________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.]